

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 12 Chwefror 2020

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 18 CHWEFROR 2020** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYS

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2020 (copi'n amgaeedig).

5 CAFFAEL GOFAL A CHEFNOGAETH MEWN CYNLLUN TAI GOFAL YCHWANEGOL I BOBL HŶN AC ANABLEDD CYMHLETH (Tudalennau 17 - 30)

I ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth (copi ynghlwm) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cynnal proses gaffael ar gyfer tendro gofal a chefnogaeth i'r Cynllun Tai Gofal Ychwanegol, Awel y Dyffryn, Dinbych.

6 CAFFAEL SYSTEM CYLLID (Tudalennau 31 - 44)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn proses gaffael ar gyfer system cyllid craidd i'r Cyngor.

7 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL (Tudalennau 45 - 52)

Ystyried adroddiad gan y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau a nodwyd ar gyfer eu cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2020/21.

8 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 53 - 90)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET (Tudalennau 91 - 94)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

10 CYMERADWYO CYTUNDEB BYW Â CHYMORTH GOGLEDD CYMRU (Tudalennau 95 - 136)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cyngorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth (copi ynghlwm) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer derbyn a gwrthod tendrau mewn perthynas â'r ymarfer caffael ar gyfer Cytundeb Byw â Chymorth Gogledd Cymru (Fframwaith).

11 CONTRACT IS-RANBARTHOL (CSDD/CBSC) – GWASANAETHAU CYSYLLTU BYWYDAU (Tudalennau 137 - 166)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth (copi ynghlwm) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r contract ar gyfer darparu Gwasanaethau Cysylltu Bywydau yn dilyn ymarfer tendro.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon

Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2020 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

Arsylwyr: Alan James, Glenn Swingler, Rhys Thomas, Graham Timms, Huw Williams ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol Cymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Cyllid ac Eiddo (SG), Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau ac Amgylcheddol (TW), Cymunedau a Chwsmeriaid (LG), Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (EJ); Rheolwr Priffyrdd, Asedau a Risg (TT); Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cleientiaid (KN); Swyddog Datblygu Busnes a'r Economi (NC); Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol (GD) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyngorydd Graham Timms gysylltiad personol gydag eitem 7 ar y rhaglen - Ardal Gwella Busnes Llangollen gan ei fod yn Gadeirydd Llangollen 2020

Datganodd y Cyngorwyr Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol gyda'r elfen yn ymwneud â SC2 yn Eitem 10 ar y Rhaglen – Adroddiad Cyllid gan eu bod yn Gyfarwyddwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig.

3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw fater bryd.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2019.

Cywirdeb - Tudalen 12, Eitem 6 Cynnig i ddiwygio cylch gorchwyl y Grŵp Cynllunio Strategol - cytunwyd y dylid tynnu ‘-’ o ddiwedd y llinell olaf cyn y penderfyniad i nodi “**PENDERFYNWYD** wedi hynny bod....”

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2019 fel cofnod cywir.

5 COD YMARFER PRIFFYRDD

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad a Chod Ymarfer newydd Priffyrdd i'w gymeradwyo'n ffurfiol.

Darparwyd rhywfaint o gefndir o ran cyfrifoldebau deddfwriaethol a roddir ar awdurdodau priffyrdd i gynnal y rhwydwaith priffyrdd a fabwysiadwyd gyda'r meini prawf arfaethedig yn cael eu defnyddio i gynnal y rhwydwaith priffyrdd yn ddiogel ac i sicrhau y gellir darparu amddiffyniad cadarn yn erbyn hawliadau yswiriant trydydd parti. I'r perwyl hwn, ac i alluogi dull cyson ar draws Cymru, mae dogfen Cod Ymarfer ar y cyd wedi'i gynhyrchu gan awdurdodau priffyrdd Cymru. Adroddodd y swyddogion ar agweddau technegol y ddogfen a thynnu sylw at y prif newidiadau i'r cynllun presennol o ran arolygu a chynnal a chadw ynghyd â'r rhesymau dros y rhain ac i sicrhau cysondeb ar draws y sir. Er bod y ddogfen ar y cyd yn nodi'r isafswm o ran gofynion ar gyfer awdurdodau lleol Cymru, roedd Sir Ddinbych wedi rhagori ar y gofynion hynny ar gyfer elfennau penodol o'r cynllun. Nodwyd bod swyddogion yn mynychu Grwpiau Ardal yr Aelodau i drafod materion priffyrdd yn rheolaidd, gan gynnwys strategaeth y briffordd ehangach, a byddai ymgysylltiad yn parhau.

Cymerodd y Cabinet y cyfle i drafod y Cod Ymarfer newydd gyda'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion, a ymatebodd i gwestiynau a sylwadau fel a ganlyn-

- roedd diffiniad o dwll mewn ffordd wedi'i ddiffinio'n glir yn y ddogfen newydd o ran ei ddimensiynau yn unol â safon y diwydiant a byddai unrhyw ostyngiad yn y maint hwnnw yn effeithio ar adnoddau
- ymhelaethodd ar ddiffiniadau categorïau diffygion ar gyfer diffygion critigol a diogelwch a nodi'r diffyg o ran cyfeiriad rhwng y ddau gategori yn y tabl ar dudalen 10 y ddogfen ac fe gytunwyd y gellid eu diffinio'n well ar y pwynt hwnnw, ond roedd mathau o ddiffygion a lefelau ymyrraeth wedi'u nodi mewn man arall yn y ddogfen.
- eglurodd bod Cod Ymarfer newydd wedi'i gynhyrchu yn 2016 gan Bwyllgor Cyswllt Ffyrdd y DU i 'rhyddhau' awdurdodau lleol a rhoi mwy o hyblygrwydd cyllidebol ond roedd swyddogion priffyrdd awdurdodau Cymru wedi penderfynu po fwyaf y nifer, y mwyaf diogel ydynt o ran ymglyfreitha posibl ac felly cytunwyd ar ddull cyson a dogfen ar y cyd yn nodi'r isafswm o ran safonau.
- cydnabuwyd pryderon o ran effeithiolrwydd ac ymarfer atgyweirio tyllau mewn ffyrdd dros dro cyn darparu atgyweiriad parhaol ond eglurodd pe na ellir gwneud atgyweiriad parhaol o fewn y terfyn amser sy'n ofynnol i sicrhau diogelwch yna byddai atgyweiriad dros dro yn ofynnol.
Gobeithiwyd y gallai maint diffiniol twll mewn ffordd yn y Cod Ymarfer gynorthwyo i ryddhau rhywfaint o adnoddau i'r diben hwnnw ac fe gynhelir

cyfarfodydd rheolaidd rhwng priffyrdd a strydwedd i adolygu gwaith cynnal a chadw adweithiol a sicrhau y defnyddir y dull mwyaf effeithlon ac effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Cadarnhaodd y swyddogion y byddent yn fodlon mynychu unrhyw fforwm aelodau i drafod yr ymagwedd a gymerwyd i sicrhau bod aelodau yn derbyn yr holl wybodaeth i ymateb i gwestiynau preswylwyr amdanynt. Cytunwyd y byddai'n fuddiol pe bai swyddogion yn egluro'r dull, gan gynnwys goblygiadau'r Cod Ymarfer newydd, mewn sesiwn Frifffio'r Cyngor.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- (a) *derbyn yr adroddiad ac yn cadarnhau'r Cod Ymarfer newydd fel y gellir ei weithredu'n ffurfiol yn Sir Ddinbych, a*
- (b) *chadarnhau ei fod wedi darllen, deall a chymryd yr Asesiad o'r Effaith ar Les i ystyriaeth (Atodiad A o'r adroddiad) fel rhan o'i benderfyniad.*

6 CYNLLUN ADSEFYDLU POBL DDIAMDDIFFYN O SYRIA

Cyflwynodd y Cyng. Bobby Feeley adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cabinet roi cymeradwyaeth i barhau i gefnogi'r gwaith o adsefydlu ffoaduriaid yn Sir Ddinbych drwy'r cynllun newydd.

Cynghorwyd y Cabinet ynglŷn â chynnydd Cynllun Adsefydlu Unigolion Diamddiffyn o Syria yn Sir Ddinbych sydd yn cael ei ddisodli gan Gynllun Aidsefydlu Byd-eang newydd ac ehangach o fis Ebrill 2020 i groesawu oddeutu 5000 o ffoaduriaid i'r DU o'r Dwyrain Canol ac Affrica. Ers Ebrill 2016 roedd Sir Ddinbych wedi llwyddo i adsefydlu 18 o deuluoedd ac ar y trywydd iawn i ddiwallu'r targed o 20 teulu erbyn Mawrth 2020. Roedd manylion llawn llwyddiannau, meysydd i'w gwella a gwersi a ddysgwyd o'r prosiect yn yr adroddiad. Bydd y cynllun newydd yn fwy syml i'w weithredu ac wedi anelu i ddarparu gwell cysondeb yn y ffordd y mae ffoaduriaid yn cael eu hadsefydlu.

Cefnogodd y Cabinet barhad y cynllun ac roeddent yn awyddus i sicrhau bod y meysydd a nodwyd ar gyfer eu gwella a bod unrhyw rwystrau sy'n atal integreiddio yn cael eu datrys. Ceisiodd y Cynghorydd Mark Young sicrwydd ynglŷn â safonau tai a chyflwr eiddo ynghyd â mynediad at ofal iechyd. Eglurodd y swyddogion bod honiadau o leithder a chyddwysiad o ganlyniad i ddewisiadau ffyrdd o fyw diwylliannol o ystyried y newidiadau o ran hinsawdd gyda'r gwres yn cael ei danio a'r ffenestri ynghau a'u bod yn gweithio i addysgu'r teuluoedd hynny a lle bo'r angen roedd echdynwyr ychwanegol wedi'u gosod i ddatrys y materion hynny. Eglurwyd hefyd bod cryn dipyn o waith yn cael ei gyflawni'n genedlaethol ac yn lleol i sicrhau gwell mynediad at wasanaethau gofal deintyddol ac iechyd ar gyfer teuluoedd ac roedd yn parhau i fod yn fater o flaenoriaeth i ystyried y dulliau o oresgyn y rhwystrau hynny. Mewn ymateb i gwestiynau pellach a sicrwydd cadarnhaodd y swyddogion bod y bwriad bod y teuluoedd yn cymryd cyfrifoldeb llawn am denantiaeth ar ôl deuddeg mis yn uchelgeisiol ond roedd sicrhau fod gan y teuluoedd fynediad at systemau cyfrifiadurol a dealltwriaeth o ran sut i reoli cyfrifon rhent wedi cynorthwyo i symleiddio'r broses ynghyd â rhannu gwybodaeth yn well a sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u disgwyliadau. Roedd

meysydd i'w gwella wedi'u nodi a byddwn yn canolbwyntio adnoddau ar y rhain yn y dyfodol.

Adroddodd y Cynghorydd Graham Timms am fuddion cadarnhaol o gael dau deulu wedi'u lleoli yn Llangollen a oedd wedi arwain at well dealltwriaeth o sefyllfa ffoaduriaid. O ran anawsterau ieithyddol, cadarnhaodd swyddogion bod camau wedi'u cymryd o ran hynny drwy gyflwyno datrysiadau digidol a'r defnydd o apiau ar-lein ond cydnabuwyd y gellir gwneud mwy ac roedd y Swyddfa Gartref a Phartneriaeth Ymfudo Cymru yn gweithio i fynd i'r afael â'r mater. Cydnabuwyd pwysigrwydd bod teuluoedd yn derbyn cyflogaeth a hyfforddiant hefyd a gwnaed cryn dipyn o waith o ran hynny ac i atal camfanteisio.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- (a) *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau ac*
- (b) *yn cytuno i barhau i gefnogi adsefydlu ffoaduriaid yn Sir Ddinbych drwy'r Cynllun Adsefydlu Byd-Eang yn ddibynnol ar delerau ac ariannu cynllun o'r fath unwaith y mae wedi ei gyhoeddi gan y Swyddfa Gartref.*

7 ARDAL GWELLA BUSNES (AGB) LLANGOLLEN

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad ar ddatblygiad Ardal Gwella Busnes (AGB) Llangollen a cheisio cefnogaeth i'w sefydlu.

Roedd AGBau yn rhoi pŵer i fusnesau lleol i ddod ynghyd, penderfynu ar y gwelliannau yr oeddent eisiau eu cyflawni o fewn ardal benodol, a chodi arian i'w cyflawni. Darparwyd rhywfaint o gefndir o ran y gwaith a wnaed gyda'r gymuned fusnes leol i benderfynu ar hyfywedd AGB Llangollen ynghyd â phroses ddatblygu a deddfwriaethau o ran hynny. Roedd y cam nesaf yn cynnwys papur pleidleisio drwy'r post ar gyfer busnesau cymwys i bleidleisio 'o blaid' neu 'yn erbyn' cynnig AGB a oedd yn nodi sut y byddai AGB yn gweithredu (incwm a gwariant arfaethedig, ardal yr AGB a mesuryddion perfformiad) a sut y byddai'r AGB yn cael ei wario. Yr amod yw bod yn rhaid i weithgareddau fod yn ychwaneg at y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol. Argymhellwyd bod y Cabinet yn cytuno i gefnogi sefydlu'r AGB trwy bleidleisio 'o blaid' ym mhleidlais yr AGB mewn perthynas â phob un eiddo ardrethadwy cymwys sydd gan y Cyngor yn yr AGB.

Wrth gefnogi'r argymhellion nododd y Cynghorydd Evans bod Llangollen wedi bod yn dref uchelgeisiol a phrysur erioed a phe bai AGB yn cael ei sefydlu byddai'n gymorth i fusnesau fuddsoddi yn eu blaenoriaethau a chynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol. Nododd y Cynghorydd Tony Thomas ei gefnogaeth gan nodi ei fod yn credu bod busnesau yn Llangollen yn hynod ymatebol i sefydlu AGB ac roedd yn credu y byddai o fudd mawr i'r dref.

Eglurodd y Cynghorydd Graham Timms ei fod ef a'i gyd-gynghorydd lleol Melvyn Mile yn gefnogwyr brwd sefydlu AGB ond holodd gwestiynau am (1) cyfeiriad yn yr adroddiad y byddai ysgolion yn cael eu heithrio o'r ardoll gan eu bod y tu allan i

ardal yr AGB, (2) yr effaith pan fo'r Cyngor yn arfer ei bleidlais ar ran Pafiliwn Llangollen o ystyried ei fod wedyn yn cael ei drosglwyddo i Hamdden Sir Ddinbych Cyf, a (3) holi am nifer y pleidleiswyr, safleoedd y cyngor a chyfanswm gwerth ardrethol safleoedd y cyngor yn ardal yr AGB. Mewn ymateb -

- cadarnhaodd swyddogion bod ardoll yr AGB yn daladwy ar gyfer eiddo o fewn ardal benodol yr AGB yn unig ond nododd y cyfeiriad yn yr adroddiad bod ysgolion cael eu heithrio o'r ardoll - byddai eglurder pellach o ran lleoliad y ddwy ysgol yn cael ei geisio.
- cyfeiriodd y swyddogion at y sefyllfa o ran y bleidlais a fyddai'n cau ar 19 Mawrth 2020 ac eglurodd mai'r busnesau sy'n gymwys i bleidleisio fyddai'r rhai sy'n gymwys i bleidleisio ar yr adeg honno - gallai unrhyw fusnes newid perchnogaeth ar unrhyw bwynt ond roedd yn rhaid cynnal a chau'r bleidlais ar gyfnod penodol a byddai'r ardoll yn berthnasol er gwaethaf y newid mewn perchnogaeth.
Ychwanegodd y Cynghorydd Tony Thomas, er y byddai Pafiliwn Llangollen yn cael ei drosglwyddo i'r Model Darparu Amgen, byddai ardoll yr AGB ar gyfer y Pafiliwn yn parhau i fod yn daladwy.
- Eglurodd y swyddogion bod oddeutu 200 o fusnesau yn gymwys i bleidleisio yn y bleidlais a oedd yn cynnwys oddeutu 10 sy'n eiddo i'r cyngor – nid oedd y ffigyrau o ran cyfanswm gwerth ardrethol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn terfynol gan y Cynghorydd Mark Young cadarnhaodd y swyddogion bod mwyafrif amser ac adnoddau'r Tîm Datblygu Economaidd ar y prosiect wedi canolbwyntio ar waith dichonoldeb cychwynnol a datblygu'r cynnig - nid oedd symud ymlaen o'r cam hwn yn golygu llawer o ddefnydd o adnoddau.

Gofynnodd yr Arweinydd i'r Cabinet bleidleisio ar bob argymhelliad yn unigol.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau;*
- nodi cynnwys y Cynllun Busnes AGB (Atodiad 2 i'r adroddiad) ac argymhelliad y swyddog nad oes unrhyw sail i roi feto o dan Ddeddfwriaeth AGB Cymru (2005) (Atodiad 3 i'r adroddiad) gan nad yw'n gwrthdaro ag unrhyw bolisiau lleol presennol nac yn gosod baich anghymesur ar fusnesau penodol yn yr ardal;*
- cytuno i gefnogi sefydlu'r AGB trwy bleidleisio 'o blaid' ym mhleidlais yr AGB mewn perthynas â phob un eiddo ardrethadwy cymwys sydd gan y Cyngor yn yr AGB, a*
- chytuno i roi awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus i fwrw pleidleisiau mewn perthynas â phob eiddo ardrethol cymwys sydd gan y Cyngor yn yr AGB.*

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cynnydd rhent blynyddol Tai Sir Ddinbych, Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai a Chyllidebau Refeniw ar gyfer 2020/21 a'r Cynllun Busnes Stoc Dai.

Eglurodd y Cynghorydd Thompson-Hill ffigyrau'r gyllideb a'r tybiaethau o ran lefelau incwm i'r Aelodau gan nodi prynu 7 cyn-dŷ cyngor a 3 tŷ sector preifat a'r rhaglen ar gyfer 170 o gartrefi ychwanegol. O ran y cynnydd rhent blynyddol mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi polisi rhent pum mlynedd ar gyfer rhent tai cymdeithasol yn ddiweddar ac mae setliad y rhenti wedi'u cyfrifo gan ystyried y polisi a'r mecanwaith ar gyfer codi rhent. Y cynnydd ar gyfer 2020/21 oedd 2.7% a byddai'n gadael 44% o gartrefi ar lefelau rhent targed gan arwain at gyfartaledd rhent wythnosol o £92.35 a oedd ar ben isaf y lefel rhent targed. Nid oedd cynnig ddefnyddio'r tâl dewisol o hyd at £2.00 ar gyfer eiddo sy'n is na'r rhent targed. Cyfeiriwyd hefyd at daliadau gwasanaeth dadelfenedig a fyddai'n gyfartaledd o £2.27 yr wythnos.

Nododd y Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol fuddion polisi rhent pum mlynedd i alluogi gwell cynllunio ar gyfer y dyfodol. Fel rhan o'r polisi newydd roedd yn ofynnol bod y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw gynnydd mewn rhent yn ystyried fforddiadwyedd ar gyfer tenantiaid ac asesiadau o effeithiolrwydd costau a fyddai'n cael eu cyflwyno mewn adroddiadau i'r aelodau yn y dyfodol. Roedd yr ystyriaethau eraill yn cynnwys cyhoeddiad sydd i ddod ar ddatgarboneiddio stoc dai'r Cyngor a'r disgwyliad nad yw landlordiaid cymdeithasol yn troi tenantiaid allan i fod yn ddigartref.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y materion canlynol -

- roedd y ddarpariaeth ar gyfer drwgddyledion wedi cynyddu ond roeddent yn darparu ar gyfer y sefyllfa waethaf posib' ac roedd cyfraddau casglu yn parhau i fod yn uchel ac ôl-ddyledion rhent yn isel.
Roedd y tenantiaethau yn wythnosol a oedd yn peri problem o ran llif arian i rai ar Gredyd Cynhwysol sy'n cael ei dalu'n fisol ond roedd gwaith ar y gweill i nodi unrhyw anawsterau posibl ar gam cynnar gan ddarparu cefnogaeth i denantiaid. Roedd y cynnydd posibl mewn drwgddyledion hefyd yn cydnabod yr ymrwymiad i gynyddu'r stoc o dai a chynnydd rhent blynyddol yn unol â'r polisi rhent.
- nodwyd nad oedd garejis yn rhan o'r adroddiad gan nad oeddent yn destun y polisi rhent ac roedd Pennaeth Cymunedau a Chwsmeriaid wedi cytuno i gynyddu rhent garejis o 2.7% yn unol â rhenti tai.
Nododd y swyddogion yr adolygiad o safleoedd garejis a dim ond un safle yn Rhuthun sy'n addas ar gyfer tai fel defnydd amgen. Y bwriad oedd ystyried safleoedd garejis fel rhan o adolygiad strategol y stoc o dai gan ystyried yr argyfwng newid hinsawdd ac effeithiau amgylcheddol i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol.
- nodwyd effaith gadarnhaol gyffredinol ar y Gymraeg a nodwyd yn yr Asesiad o Effaith ar Les ond holodd y Cynghorydd Emrys Wynne am amwysedd y term 'ardaloedd gwledig' yn y ddogfen ac roedd yn teimlo ei fod yn gwahaniaethu'n ddiangen o ystyried nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws y Sir gyfan.
Ymhelaethodd y swyddogion ar y polisi gosodiadau lleol a oedd yn rhoi blaenoriaeth mewn ardaloedd gwledig i bobl o'r gymuned i gynorthwyo i

amddiffyn y defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau yn y dyfodol a chynghori bod y polisi yn benodol iawn o ran ym mha ardaloedd o'r sir yr oedd hyn yn berthnasol, gan gadarnhau mai'r pentrefi lleiaf oedd y lleoliadau lle roedd y Gymraeg yn un o'r ystyriaethau. Derbynnir bod y Gymraeg yn iaith sy'n cael ei siarad ar draws y sir gyfan.

PENDERFYNWYD –

- (a) *mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2020/21 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 i'r adroddiad); a*
- (b) *chynyddu rhent anheddau'r Cyngor yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol i rent wythnosol cyfartalog o £92.35 i'w weithredu o ddydd Llun 6 Ebrill 2020.*

Ar yr adeg hon (11.10 am) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

9 CYLLIDEB 2020/21 – CYNIGION TERFYNOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn amlinellu goblygiadau Setliad drafft Llywodraeth Leol 2020/21 a'r cynigion ar gyfer cyllideb derfynol 2020/21, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

Darparodd y Cynghorydd Thompson-Hill drosolwg o broses y gyllideb a sefyllfa ddiweddaraf y gyllideb ac ymhelaethodd ar y cynigion i'w hystyried a'r argymhelliad i'r Cyngor llawn er mwyn gosod y gyllideb ar gyfer 2020/21. Roedd y setliad drafft wedi arwain at setliad cadarnhaol o +4.3% a disgwylir y setliad terfynol ar 25 Chwefror 2020. Roedd pwysau o £12.418m wedi'i nodi, a fyddai ynghyd â £2m o arbedion heb eu nodi o 2019/21, yn arwain at ddiffyg o £14.418m. Roedd y setliad o +4.3% yn cynhyrchu £6.219m gan adael bwch cyllid o £8.199m gyda chynigion i gau'r bwch wedi'u nodi yn yr adroddiad a'u hegluro ymhellach yn y cyfarfod. Roedd cynnydd o 4.3% yn Nhreth y Cyngor wedi'i gynnig a fyddai'n cynhyrchu £2.298m o refeniw ychwanegol. Gan fod y setliad terfynol yn hwyr, argymhellwyd bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo er mwyn galluogi addasiadau arian parod yng nghynigion y gyllideb hyd at £500mil. Roedd y cynigion yn cyflwyno cyllideb gytbwys heb fawr o effaith ar breswylwyr.

Cydnabu'r Arweinydd proses gadarn y gyllideb a'r cymhlethdodau pellach o ystyried bod y setliad drafft yn hwyr. Roedd yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r lobio dwys ar y pwysau y mae llywodraeth leol yn ei wynebu a gobeithir y byddai'r setliadau cadarnhaol yn parhau ac y byddai setliad tair blynedd yn cael ei ddarparu. Cefnogodd yr argymhellion yn yr adroddiad hefyd.

Canolbwyntiwyd ar y prif faterion trafod a ganlyn -

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Mark Young at gynigion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ynglŷn â chyllid ychwanegol ar gyfer y GIG a'r effaith ar gyfer Cymru. Eglurwyd gan fod y GIG yn fater sydd wedi'i ddatganoli byddai'n rhaid i unrhyw gyhoeddiad gan Lywodraeth y DU arwain at gyllid canlyniadol Fformiwla Barnett

ar gyfer Cymru ac mai penderfyniad Llywodraeth Cymru fyddai sut i ddyrannu'n cyllid hwnnw. Eu safbwynt hyd yma oedd blaenoriaethu cyllid ar gyfer y GIG, gyda llywodraeth leol i ddilyn. Ond roedd meysydd yn gorgyffwrdd a fyddai yn destun trafodaethau yn y dyfodol gyda'r Bwrdd Iechyd ar adeg priodol.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Graham Timms at sawl elfen o broses y gyllideb a holi am fanteision defnyddio'r cyllid ychwanegol o'r setliad gwell nag a ddisgwyliwyd i leihau'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 4.8% i 4.3% yn hytrach nag yn uniongyrchol ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer preswylwyr. Cadarnhaodd y Cynghorydd Thompson-Hill y tu hwnt i'r Grant Cynnal Refeniw roedd nifer o grantiau penodol yn cael eu cyhoeddi ar adegau gwahanol sy'n cael effaith ar y gyllideb. Cyn derbyn hysbysiad o'r setliad drafft roedd cynnydd o 4.8% yn Nhreth y Cyngor wedi'i nodi fel elfen hanfodol i sicrhau cyllideb gytbwys. Roedd y cynnydd mewn cyllid yn golygu bod modd cyflwyno nifer o fesurau gan gynnwys lleihau'r effaith ar ysgolion o £700mil; mynd i'r afael â phwysau sydd heb eu hariannu; lleihau swm arian parod i gefnogi'r gyllideb; a gwneud gostyngiad bychan i'r cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor. O ystyried y pwysau ar breswylwyr credwyd nad oedd yn briodol codi mwy o Dreth y Cyngor na'r hyn sy'n gwbl angenrheidiol. Ni fyddai'r newidiadau a gynigwyd yn cael effaith negyddol ar breswylwyr ac roedd yn cael ei ystyried yn becyn call a rhesymol o fesurau i fynd i'r afael â'r setliad sy'n well na'r hyn a ddisgwyliwyd. Ychwanegodd yr Arweinydd bod preswylwyr sy'n cael trafferthion talu Treth y Cyngor ar draws y sir a'r nod oedd darparu cyllideb gytbwys i gefnogi gwasanaethau ond hefyd i ystyried yr effaith ar breswylwyr a gallai amddiffyn sefyllfa'r Cyngor rhag unrhyw her o ran hynny
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Bobby Feeley at y gyfran uchel o gyllid yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei dyrannu i'r GIG ac roedd yn siomedig nad oedd trafodaethau maith am ddod ag iechyd a gofal cymdeithasol yn agosach at ei gilydd wedi darparu rhagor o gyllid, yn enwedig gan y byddai cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol yn cael effaith gadarnhaol ar y GIG.
- Cyflwynodd y Cynghorydd Emrys Wynne rai pryderon o ran y cyfeiriad at beidio â llenwi swyddi gwag fel rhan o arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth a'r effaith o ran amseroedd ymateb a phwysau ar y gweithlu. Nodwyd yr effaith ar wydnwch a chapasiti o fewn timau a nododd yr Arweinydd bod pob Aelod Cabinet wedi gweithio gyda'r Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer eu meysydd portffolio ar gyllidebau gwasanaeth ac roeddent yn gwbl ymwybodol o effaith yr arbedion sy'n cael eu cyflwyno ar ddarpariaeth gwasanaethau. Ychwanegodd y Prif Weithredwr o ystyried deng mlynedd o galedi ariannol nid oedd modd gwneud arbedion effeithlonrwydd o fewn gwasanaethau heb effaith mwyach ac roedd angen i'r Cyngor weithio o fewn ei adnoddau – gwnaed cryn dipyn o waith o ran strwythur, technoleg, a datblygu sgiliau staff i sicrhau'r canlyniad gorau posib' i ddarparu gwasanaethau ac roedd swyddogion yn gweithio'n galed ar hynny. Roedd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth hefyd yn gweithio gydag aelodau'r Cabinet o ran y ffyrdd gorau o wneud arbedion heb gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer preswylwyr.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

(a) nodi effaith Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2020/21;

- (b) *cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ac y manylir arnynt yn Adran 4 yr adroddiad, ac yn eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn llunio'r gyllideb yn derfynol ar gyfer 2020/21;*
- (c) *argymell i'r Cyngor y cynnydd cyfartalog arfaethedig o 4.3% yn Nhreth y Cyngor;*
- (d) *argymell i'r Cyngor fod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian sydd wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb o hyd at £500mil os oes yna symud rhwng ffigyrau'r setliad drafft a'r setliad terfynol er mwyn gallu gosod Treth y Cyngor yn amserol, a*
- (e) *chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les a gyflwynwyd fel rhan o'r adroddiad hwn.*

10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cyng. Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb. Rhoddodd grynodedeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2019/20 oedd £198.538 miliwn (£194.418 miliwn yn 2018/19).
- rhagwelid y byddai gorwariant o £2.109miliwn mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol.
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol.
- nododd arbedion ac effeithlonrwydd gofynnol o £5.672m gyda dyraniad a gymeradwywyd o £616mil o Gronfa Wrth Gefn Cyflawni Arbedion i'w osod yn erbyn yr arbedion nad ydynt yn cael eu cyflawni (oddeutu 11% o gyfanswm yr arbedion a nodwyd)
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

O ran y dyraniad a gymeradwywyd yn flaenorol o £616mil o Gronfa Wrth Gefn Cyflawni Arbedion argymhellwyd bod £440mil yn addasiad parhaol i sylfaen y gyllideb er mwyn sicrhau bod SC2 yn cael ei ariannu'n briodol yn y dyfodol. Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo cynigion gan y Grŵp Buddsoddi Strategol yn ymwneud â (1) Cartrefi Passivhaus yn Lodge Farm, Dinbych, (2) Depo Canolog Priffyrdd, a (3) Llety'r Gerddi Botaneg. Cyfeiriodd y Cynghorydd Brian Jones at y sefyllfa gyda safleoedd tipiau etifeddiaeth a bod angen cyfleuster pwrpasol ar gyfer gwastraff priffyrdd ac roedd yn llwyr gefnogi'r cynnig ynghyd â disodli'r llety yn y Gerddi Botaneg, y Rhyl o ystyried cyflwr gwael iawn y llety presennol.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn –

- (a) *nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2019/20 a'r cynnydd yn ôl y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*

- (b) cymeradwyo'r cynnig Cyfrif Refeniw Tai i adeiladu tai Passivhaus yn Lodge Farm, Dinbych (fel y nodir yn Atodiadau 6,7 ac 8 i'r adroddiad);
- (c) cymeradwyo'r cynnig i adeiladu canolfan newydd ar gyfer ailgylchu deunyddiau gwastraff a bod £63mil yn cael ei roi naill ochr yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i dalu am y costau benthyca darbodus blynyddol (fel nodir yn Atodiadau 6 a 9 i'r adroddiad);
- (d) cymeradwyo'r cynigion i ddisodli'r llety is-safonol sy'n aneffeithiol yn amgylcheddol yn y Gerddi Botaneg, y Rhyl a bod £39mil yn cael ei roi naill ochr yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i dalu am y Costau Benthyca Darbodus blynyddol (fel nodir yn Atodiadau 6 a 10 i'r adroddiad), a
- (e) cymeradwyo i ddisodli £440mil o'r dyraniad ariannol o £616mil gyda'r gyllideb sylfaenol i helpu i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth SC2 (fel nodir yn Adran 4 yr adroddiad).

11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau/ diwygiadau canlynol –

- Adolygiad o Weithgareddau Cyfleoedd Gwaith a Chyfleoedd Dydd – Mawrth
- Cytundeb Llywodraethu 2 Cynnig Twf Gogledd Cymru – wedi'i ohirio tan fis Ebrill

PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm.

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	Chwefror 2020
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Bobby Feeley/Phil Gilroy – Pennaeth Gwasanaeth
Awdur yr adroddiad	Emily Jones-Davies
Teitl	Caffael gofal a chefnogaeth mewn Cynllun Tai Gofal Ychwanegol i Bobl Hŷn ac Anabledd Cymhleth

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am y trefniadau caffael ar gyfer tendro gofal a chefnogaeth i'r Cynllun Tai Gofal Ychwanegol, Awel y Dyffryn, Dinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

- 2.1 I geisio awdurdodiad i gynnal dau ymarfer tendro ar gyfer caffael gwasanaethau gofal a chefnogaeth i 66 o Unedau Pobl Hŷn ac 8 Uned Anabledd Cymhleth a leolir o fewn Awel y Dyffryn fel bo'r angen yng Nghanllawiau Ariannol y Cyngor (Rheolau Gweithdrefn Contract).

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Bod y Cabinet yn rhoi cymeradwyaeth i gynnal y broses gaffael. Bydd canlyniad pob tendr yn cael ei gyflwyno yn ôl i'r Cabinet ar gyfer cymeradwyaeth derfynol.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Mae Cyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth gyda Grŵp Tai Cynefin wedi datblygu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Awel y Dyffryn yn Ninbych, hwn fydd y pedwerydd Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn Sir Ddinbych.

- 4.2 Mae'r safle yn cynnwys 66 uned tai gofal ychwanegol, a bloc ar wahân o 8 uned ar gyfer anableddau cymhleth. Rhagwelir y bydd y cynllun yn barod ar gyfer 1 Medi 2020.
- 4.3 Bydd y ddarpariaeth gofal ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn ac yn cael ei ddarparu yn unol â Chontract Gwasanaeth Cartref Rhanbarthol Sir Ddinbych, gofynion cofrestru AGC ac unrhyw ofynion llywodraethu perthnasol eraill.
- 4.4 Mae Sir Ddinbych yn cynnal dau dendr drwy'r Fframweithiau er mwyn penodi darparwr neu ddau ddarparwr yn ddarostyngedig i'r tendrau, i ddarparu'r gwasanaethau a ddisgrifir uchod.
- 4.5 Bydd angen cynnal dau dendr ar wahân ar gyfer y ddwy elfen o gefnogaeth a gall hyn arwain at ddau ddarparwr cefnogaeth ar y safle. Yn yr achos hwn, bydd un Darparwr yn darparu gofal a chefnogaeth i'r 66 uned (pobl ag angen wedi'i asesu, sydd dros 60 oed). Bydd y llall yn darparu gwasanaeth gofal a chefnogaeth arbenigol i'r 8 uned anabledd cymhleth.
- 4.6 Bydd y darparwr gofal Pobl Hŷn yn cael ei benodi erbyn Mai/Mehefin 2020, i ganiatáu ar gyfer cyfnod pontio o dri mis, lle byddant, ar y cyd â Grŵp Cynefin yn cynnal asesiadau o angen y bobl hynny sydd wedi diwallu'r meini prawf cymhwysedd, a gwneud argymhellion i'r panel dyrannu cyn symud llety fesul cam.
- 4.7 Bydd y darparwr Anabledd Cymhleth yn cael ei benodi erbyn Gorffennaf/Awst 2020. Nid oes angen cyfnod pontio. Bydd y Tîm Anabledd Cymhleth eisoes wedi nodi pobl briodol i symud i'r cynllun.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Mae darpariaeth gwasanaethau byw â chymorth i unigolion gydag anableddau dysgu ac i Bobl Hŷn, yn cefnogi'r flaenoriaeth gorfforaethol bresennol bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl. Bydd hefyd yn cefnogi pobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Amcangyfrifir bod y Tendr Pobl Hŷn yn gyfanswm cost o £350,000 y flwyddyn. Bydd y cytundeb am flwyddyn gyda'r opsiwn i ymestyn am 9 mlynedd, gan wneud cyfanswm cost y contract yn £3,500,000.
- 6.2. Amcangyfrifir bod y tendr Anabledd Cymhleth yn gyfanswm cost o £200,000 y flwyddyn. Bydd y cytundeb am flwyddyn gyda'r opsiwn i ymestyn am 9 mlynedd, gan wneud cyfanswm cost y contract yn £2,000,000.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

- 7.1. Mae Asesiad o Effaith ar Les a gwblhawyd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Roedd yr asesiad a gynhaliwyd ar ddechrau'r broses gomisiynu, a gynhaliwyd gan Swyddogion y Comisiynydd Pobl Hŷn a Gwasanaethau Anabledd Cymhleth.
- 7.2. Bydd gwaith ar gyfer y tendr a phenodiad y darparydd gofal llwyddiannus i'r cynllun yn dilyn holl bolisiâu a gweithdrefnau CSDd.
- 7.3. Ni ellir gwneud llawer i newid grŵp oedran yr ymgeiswyr ac unigolion a gefnogir yn yr ECH o ganlyniad i'r manylebau cyllid ac felly mae un nodwedd warchoddedig yn cael ei herio. Fodd bynnag, mae hyn wedi nodi bylchau mewn tai ar gyfer grwpiau oedran arbennig mae'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn ei weld fel cyfle yn y dyfodol ar gyfer datblygiadau tai pellach.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda staff CSDd, darparwyr, cynrychiolwyr Adrannau Cyfreithiol a Chaffael, cydweithwyr o BIPBC, dinasyddion a'u cynrychiolwyr/eiriolwyr. Mae Cynghorwyr Bobby Feely wedi bod yn cyfrannu drwy gydol y broses.
- 8.2. Fel rhan o'r broses gaffael, bydd unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn rhan o benderfyniadau am ddarparwyr addas.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Mae'n amlwg bod angen caffael i sicrhau bod darpariaeth y gwasanaethau byw â chymorth i unigolion gydag anableddau dysgu ac i Bobl Hŷn yn gallu cael eu darparu.

Disgwylir i'r costau gael eu cynnal o fewn cyllideb yn y maes hwn, er bod y gwasanaeth yn gyffredinol yn delio gyda llawer o bwysau.

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Byddai'r Awdurdod mewn sefyllfa fregus pe bai'n caffael gwasanaethau gan ddarparwr heb gontract.

10.2 Os na fyddai darparwr addas yn cael ei benodi ar gyfer yr un contract, byddai hyn yn arwain at oedi sylweddol i gwblhau'r cynllun, fydd yn cynnwys goblygiadau cost.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae Cynlluniau Byw yn y Gymuned wedi'u cefnogi gan y Sir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), 2014.

11.2. Rheolau'r Weithdrefn Gontractau a Rheoliadau Ariannol Cyngor Sir Ddinbych.

tendered domiciliary service

Well-being Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of the proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

Assessment Number:	682
Brief description:	Tendering out a service that will provide care and support staff to deliver domiciliary and /or responsive support services to the citizens who will live on the Awel y Dyffryn site.
Date Completed:	19/09/2019 15:22:32 Version: 2
Completed by:	Geraldine Adams
Responsible Service:	Community Support Services
Localities affected by the proposal:	Denbigh,
Who will be affected by the proposal?	Providers who are unable to meet the necessary tendering processes. Citizens with existing domiciliary providers who may now require to change providers.
Was this impact assessment completed as a group?	Yes

IMPACT ASSESSMENT SUMMARY AND CONCLUSION

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

Score for the sustainability of the approach

★ ★ ★ ★ (3 out of 4 stars) Actual score : 29 / 30.

Implications of the score

Denbighshire's contract and commissioning team members along with service manager has met and discussed this proposal in depth. A joint panel will consist of both partner personnel along with a citizen who lives within an existing extra care scheme within Denbighshire's portfolio of extra Care Housing. for adults with learning disabilities this will provide a sustainable housing option which is affordable to the Council in the long term - it will save on the cost of Care Home fees.

Summary of impact

Well-being Goals

A prosperous Denbighshire	Positive
A resilient Denbighshire	Positive
A healthier Denbighshire	Positive
A more equal Denbighshire	Positive
A Denbighshire of cohesive communities	Positive
A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language	Positive
A globally responsible Denbighshire	Positive



Main conclusions

The work of the tender and the appointment of the successful care provider to the scheme will follow all DCC policies and procedures.

There is little that can be done to change the age group of the applicants and individuals who will be supported in the ECH due to the funding specifications and so one protected characteristic is challenged. However this has identified gaps in housing for particular age gaps that the registered social landlord sees as an future opportunity for further housing developments.

Evidence to support the Well-being Impact Assessment

- We have consulted published research or guides that inform us about the likely impact of the proposal
- We have involved an expert / consulted a group who represent those who may affected by the proposal
- We have engaged with people who will be affected by the proposal

THE LIKELY IMPACT ON DENBIGHSHIRE, WALES AND THE WORLD

A prosperous Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	A local recruitment drive and a commitment to support the unemployed people of Denbigh and its surrounding villages will be a point for consideration for the successful applicant of this tender
Further actions required	To have care and support staff complete full time hours we know ourselves increases the psychological and emotional pressures on the care staff and performance can and will be affected.

Positive impacts identified:

A low carbon society	Any new provider will be required to follow both Denbighshire and Grwp Cynefin carbon emission policy and adapt their way of working in order to lessen any likely impact by the work they do.
Quality communications, infrastructure and transport	The scheme is built with the latest digitized communication tools for all tenants and workers at the scheme. The original building plans took on board the need for transport links whilst the development stage met all necessary communications/infrastructure requirements that those living and working within the scheme would need.
Economic development	The successful provider will be able to grow with the service contract and will need to recruit from the local area for skilled staff. There will be more paid workers in and around Denbigh town centre which will help with the economic well-being of the local community
Quality skills for the long term	Domiciliary providers need to keep their staff well trained in order to meet Social Care Wales registration therefore providing a knowledgeable and skilled workforce. The service specifications include requirements around training and skills for staff
Quality jobs for the long term	The service will be an integral part of the scheme and cannot function as a scheme with out this staff team. This project will create new jobs in the social care sector - as above the service specifications include requirements around a skilled and trained workforce
Childcare	Domiciliary providers employ part time workers therefore allowing a combination of stay at home and purchased childcare by staff who require this service.

Negative impacts identified:

A low carbon society	N/A
Quality communications, infrastructure and transport	NA
Economic development	NA
Quality skills for the long term	NA

Quality jobs for the long term	The successful provider will recruit to short/part time hours due to the nature of the work involved which may not be financially viable to some seeking employment opportunities.
Childcare	childcare facilities may be called upon more with the recruitment of part time carers.

A resilient Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	Measures have already been built into the physical building where the care provider will be placed and will be expected to support and further enhance those measures.
Further actions required	by ensuring the successful provider follows landlords processes and polices in relation to this

Positive impacts identified:

Biodiversity and the natural environment	N/A
Biodiversity in the built environment	the new extra care scheme where they provider will be based has conformed and completed all necessary steps in relation to this.
Reducing waste, reusing and recycling	Full recycling suite built into the scheme. Provider will be encourage to be paperless where ever possible.
Reduced energy/fuel consumption	the scheme includes energy efficiency measures in line with all new builds
People's awareness of the environment and biodiversity	All who work for the successful care provider will be made aware of the biodiversity measures taken within and around the scheme and will be expected to maintain and support these measures for the entirety of the contract.
Flood risk management	N/A

Negative impacts identified:

Biodiversity and the natural environment	
Biodiversity in the built environment	
Reducing waste, reusing and recycling	
Reduced energy/fuel consumption	
People's awareness of the environment and biodiversity	
Flood risk management	

A healthier Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	The whole ethos of ECH promotes wellbeing for individuals and ensures access to the local community including all leisure services Inter-community links will be a main stay of the landlord and the providers to maximise community links and intergenerational work.
Further actions required	There are minimal negatives in relation to this

Positive impacts identified:

A social and physical environment that encourage and support health and well-being	The successful provider will be required to ensure the support delivered will be inline with DCC/CSS reablement and supporting individuals to live independently ways of working. the service specifications promote independence and resilience and the inclusion of telecare will encourage people to be less reliant on statutory care
Access to good quality, healthy food	the scheme provides well balanced meals that form part of the services within the site.
People's emotional and mental well-being	will be support by the successful providers trained and knowledgeable staff.
Access to healthcare	Full access to existing primary health service as likely most citizens to be from the surrounding area.
Participation in leisure opportunities	Extra Care schemes associate themselves as being able to support such access and participation to leisure opportunities by integrating them within the building themselves or by being situated within easy distance of such facilities. Service specifications include a focus on community participation including access to local leisure facilities

Negative impacts identified:

A social and physical environment that encourage and support health and well-being	
Access to good quality, healthy food	
People's emotional and mental well-being	
Access to healthcare	
Participation in leisure opportunities	

A more equal Denbighshire

Overall Impact	Positive
-----------------------	----------

Justification for impact	Any successful provider will be questioned at interview stage and they are required to evidence their commitment to anti-discriminative practices including sight of those documents.
Further actions required	Contract monitoring can capture this as a performance measure.

Positive impacts identified:

Improving the well-being of people with protected characteristics. The nine protected characteristics are: age; disability; gender reassignment; marriage or civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation	
People who suffer discrimination or disadvantage	Any successful provider will need to show evidence that they are and do not discriminate within their own recruitment processes and within the way in which people are supported.
Areas with poor economic, health or educational outcomes	Local recruitment opportunities for carers within the immediate and surrounding area of the scheme will provide some economic improvement.
People in poverty	People in poverty will not be disadvantaged by any recruitment process and this will be requested to be evidence within the tender exercise/interview stage and the successful providers equal opportunities policy. evaluation of the tenders will include an analysis of paygrades and structures

Negative impacts identified:

Improving the well-being of people with protected characteristics. The nine protected characteristics are: age; disability; gender reassignment; marriage or civil partnership; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; and sexual orientation	
---	--

People who suffer discrimination or disadvantage	
Areas with poor economic, health or educational outcomes	
People in poverty	

A Denbighshire of cohesive communities

Overall Impact	Positive
Justification for impact	The successful provider will be included and become part of the new community hub that is Awel y Dyffryn
Further actions required	The interview process will ensure that the successful provider is aware of how things can go wrong and groups can become exclusive within schemes to the detriment of other tenants.

Positive impacts identified:

Safe communities and individuals	successful provider will have a duty to maximise tenants and their colleagues safety whilst working in and around the scheme adhering to local policy/procedures.
Community participation and resilience	training and knowledge based practices will be shared on site with the successful provider and its team of support staff. Community participation has been included in the service specification
The attractiveness of the area	N/A
Connected communities	telecare is an essential part of the support service. tenants will be supported to be digitally included
Rural resilience	the service specification requires the provider to have an understanding and an awareness of the demographics of Denbigh, including the rural issues

Negative impacts identified:

Safe communities and individuals	
Community participation and resilience	
The attractiveness of the area	
Connected communities	
Rural resilience	

A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language

Overall Impact	Positive
-----------------------	----------

Justification for impact	Registered landlord is Grwp Cynefin are first language Welsh, following work within an existing scheme that we partnered with them on this topic is a key priority for them and is maximised where ever the opportunity arises.
Further actions required	The successful provider will be informed how they are expected to follow Denbighshire's lead on welsh language and further support this via support packages that require them to support individuals to access cultural and heritage sites.

Positive impacts identified:

People using Welsh	Part of the service specification that any successful provider of the service will need will be to be able to meet the needs of welsh first language citizens within the scheme, recognising also that local recruitment drive may grow a support team of welsh first language personnel.
